# SL(5)691 – Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru greu Awdurdodau Iechyd Arbennig.

Mae'r Gorchymyn yn darparu ar gyfer sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ('IGDC') ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau cyffredinol. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut y bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu wedi'u cynnwys mewn rheoliadau a ddaw i rym ar yr un pryd â'r Gorchymyn ar 30 Rhagfyr 2020. Paratowyd adroddiad ar wahân mewn perthynas â'r rheoliadau hynny.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu IGDC ac yn darparu ar gyfer aelodaeth o'r corff newydd. Mae hefyd yn cadarnhau bod IGDC i arfer swyddogaethau yn unol â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r materion a nodir yn y Gorchymyn, gan gynnwys mewn perthynas â dylunio, datblygu a chyflenwi platfformau, systemau a gwasanaethau digidol ar gyfer y Sector Iechyd a Gofal yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y grym i roi cyfarwyddiadau i IGDC ynghylch arfer unrhyw swyddogaethau.

Bydd IGDC yn sefydliad newydd o fewn GIG Cymru, sy'n bodoli ochr yn ochr â'r saith Bwrdd Iechyd, y tair Ymddiriedolaeth GIG a'r Awdurdod Iechyd Arbennig (Addysg a Gwella Iechyd Cymru) presennol; a chanddo y bydd y cyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu ffynhonnell ar gyfer platfformau, gwasanaethau a systemau digidol ar gyfer y sector iechyd a gofal yng Nghymru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam mai dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod?

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.